

**Adam Price, Aelod Cynulliad / Assembly Member
Dwyrain Caerfyrddin & Dinefwr / Carmarthen East & Dinefwr**

Swyddfa'r Etholaeth / Constituency Office

30 Parc Hafan

Castell Newydd Emlyn / Newcastle Emlyn

Sir Gaerfyrddin / Carmarthenshire

SA38 9AR

☎ 01239 712952

Adam.Price@cynulliad.cymru

Adam.Price@assembly.wales



Mrs Lesley Griffiths, AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Llywodraeth Cymru
Sae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Ein cyf: CEDLT25807EHR

15 Mawrth 2017

Annwyl Lesley

Ysgrifennaf yn dilyn cwrdd ag etholwyr yn ddiweddar sydd yn ffermwyr parthed problem ddybryd cyffredinol y maent wedi ei brofi gan staff yr adran amaeth Llywodraeth Cymru.

Roedd iselder ar un ffermwr ac roedd yn ddagreuol yn son am y profiad cafodd wrth un aelod o staff wnaeth cyrraedd y fferm ar gyfer gwneud archwiliad. Nid oedd wedi gwrthod archwiliad o'r blaen. Fe wnaeth ymddiheuro a dweud nad oedd medru gwneud yr archwiliad gan fod iselder ysbryd ganddo. Fe ddywedodd y swyddog wrtho fod ef gorfod gwneud yr archwiliad neu byddant yn diddymu'r Taliad Cais Sengl. Doedd y swyddog ddim yn fodlon rhesymu gyda fy etholwr.

Mae ffermio yn waith unig mewn ardal wledig, anghysbell. Mae'r diffyg cydymdeimlad a pharch ar lefel sylfaenol wrth staff yr adran amaeth yn peri pryder i mi gan fod angen fwy o empathi tuag at y ffermwyr. A oes angen ail hyfforddi staff i drin ffermwyr yn fwy dyngaroi a gyda pharch yn enwedig pan maent mewn sefyllfa o dan bwysedd salwch meddwl ac emosiynol? Pa gyfundrefn sydd mewn lle pan fod salwch meddwl neu alar ar ffermwyr pan fod yna ymweliad neu archwiliad fferm? Dylid gallu ail drefnu archwiliad fferm tan ar ôl llwyr wellhad o'r salwch meddwl.

Mae ffermwyr sydd wedi colli buches gwartheg oherwydd y diciâu o dan bwysedd emosiynol mawr ac mae angen i staff drin hwy hefyd gyda mwy o empathi a chydymdeimlad yn ystod y cyfnod anodd yma.


Mae yn bryder mawr am y nifer uchel o wartheg sydd wedi ymateb yn bositif i brawf diciâu, ac yna cael canlyniad positif anghywir (false positive) ar ôl cael eu lladd. Byddai datblygu prawf mwy dibynadwy yn arbed lladd miloedd o wartheg iach a thor calon i'r ffermwyr. Mae yn gost aruthrol i dalu iawndal am ladd y gwartheg iach ac yn gost i'r ffermwyr i ail sefydlu nifer ei buches.

Mae'r iawndal y mae'r ffermwyr yn ei dderbyn ddim yn cymryd i ystyriaeth y costau ychwanegol y mae'r ffermwr wedi buddsoddi yn y busnes e.e. pwl biswail (slurry pit), peiriannau, parlwr godro. Mae'r iawndal yn araf yn cael ei dalu i'r ffermwyr sy'n golygu na allant fanteisio ar brisiau ail stocio ffafriol wrth i brisiau ddisgyn. Deallaf wrth ffermwyr fod angen 60 diwrnod clir heb y diciâu ar y fuches rhwng profion neu ni fydd iawndal yn cael ei dalu am y gwartheg a laddwyd. Mae hwn i'w weld yn annheg a byddwn yn ddiolchgar os fedrwch edrych i mewn i'r mater.

Mae angen cyflymu'r broses o alluogi ffermwyr i ail stocio'r fuches. Deallaf wrth etholwr yn Haf 2016 nad oedd un swyddog o Lywodraeth Cymru medru delio gyda'i achos ail stocio'r fuches gan fod y swyddog ar ei wyliau. Roedd y ffermwr wedi buddsoddi arian sylweddol mewn parlwr godro newydd a'i fab 18 oed yn astudio yng Ngholeg Gelli Aur. Mae yn bwysig i'r fferm deuluol gael pob cefnogaeth posib i ail ddechrau ar lechen glan ym mhennod newydd y fferm, a rhoi gobaiith iddynt am ddyfodol llewyrchus wrth ail stocio ei buches godro. Mae pob diwrnod heb wartheg yn golygu colled ariannol i'r busnes gan nad oes incwm llaeth ganddynt.

Edrychaf ymlaen at glywed eich sylwadau ar y mater.

Yn gywir



Adam Price, AC
Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr

Copi: Mr Mark Reckless, AC, Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
Dr Dai Lloyd, AC, Cadeirydd Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon